# Adroddiad Blynyddol 2017- 2018 Gweledigaeth 2020: Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Cig Coch Cymreig

## 1. Trosolwg

Gweledigaeth 2020 yw’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymreig. Paratowyd y Cynllun Gweithredu yn 2015 gan Hybu Cig Cymru □ Meat Promotion Wales (HCC) ar ôl cynnal ymgynghoriad trylwyr â phob cyswllt yn y gadwyn gyflenwi cig coch, yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth lefel uchel y Cynllun yw diwydiant cig coch Cymreig sy’n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol, a fydd o fudd i bobl Cymru, ac sy’n ymdopi â newid gwleidyddol ac amgylcheddol, ac yn meddu’r gallu i ymateb yn gystadleuol i dueddiadau cyfnewidiol y farchnad. Dyfeisiwyd y Cynllun Gweithredu i adlewyrchu’r gofynion, dyheadau a thargedau arfaethedig y dylai diwydiant cig Coch Cymru geisio eu gwireddu erbyn 2020. Mae’n Ystyried Rhaglen Lywodraethu Cymru a’r cyfraniad y gall sector cig Coch Cymru ei wneud i’r cynllun gweithredu ar gyfer Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Mae’r cynllun gweithredu hefyd yn ategu’r ymrwymiad i egwyddorion y Fframwaith ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid yng Nghymru, ynglŷn â da byw amaethyddol iach a chynhyrchiol, y blaenoriaethau ar gyfer lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr trwy wella effeithlonrwydd y cynhyrchu, ac yn cymryd i ystyriaeth Gynllun Strategol 2015-2020 yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Bydd gofyn parhau i ymgysylltu â’r holl randdeiliaid ar hyd y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau ac amlygu ffocws penodol ar ddull cydgysylltiedig o gyflenwi’r holl weithgareddau. Pwyllgor Monitro’r Cynllun Gweithredu Strategol Cig Coch a fydd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso’r Cynllun Gweithredu am weddill ei dymor. Bydd y Pwyllgor Monitro hwn yn adrodd wrth Weinidogion Cymru, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Bwrdd HCC a’r diwydiant Cig Coch Cymreig. Darperir tystiolaeth yn flynyddol, gan yr holl bartïon yn y gadwyn gyflenwi Gymreig, am gyflawniadau a deilliannau’r camau a gymerir o dan y Cynllun Gweithredu.

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar berfformiad Diwydiant Cig Coch Cymreig yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/2018 ac ar feysydd posibl y dylid canolbwyntio arnynt a’u gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

# Desired outcomes by 2020

Through a combination of interventions and close working between all partners, the Welsh red meat industry aims to be a profitable, efficient, sustainable and innovative industry by 2020 which benefits to people of Wales and is committed to safeguarding high quality supply.

It should be a red meat industry which is resilient to political and environmental change and capable of responding competitively to ever changing market trends.

Implementation of the Action Plan is to be funded from a number of sources including the Welsh Government, the Rural Development Programme 2014-2020, Welsh Red Meat Levy and from the industry itself.

The Strategic Action Plan identifies two strategic priorities and their associated objectives and outcomes, which combined work towards the overall vision. See Figure 4.

It seeks to be ambitious, yet realistic and as such specific financial targets for 2020 have been included for the first time, in order to provide a clear and focussed measure of success.

It also acknowledges that circumstances could arise which may have a significant impact on the ability/extent to which the red meat industry may achieve these goals.

The aspiration is that by 2020, the Welsh red meat industry will have achieved the following:

Increased sales revenue (income at point of sale) from Welsh red meat by at least 34 per cent, to £776 million.

Improved on-farm output from the Welsh red meat sector by at least 7 per cent to £31.5 million.

The Welsh red meat industry can also play a key role in the Welsh Government targets for 2020 of growth in sales in the food and drink sector by 30 per cent to £7 billion.[65]

By 2020 the Welsh red meat industry's contribution to Welsh food and farming sector turnover will have increased by at least 14 per cent, to £6.5 billion.

## 2. Cefndir

Yng Nghymru, mae 14,023 o ddaliadau defaid (4.6 miliwn o famogiaid magu) breeding ewes); 7,435 o ddaliadau gwartheg cig eidion (168,000 o wartheg cig eidion) a 1,369 o ddaliadau moch (4,000 o foch magu) a lleolir 80% o'r rhain yn yr ucheldir. Dosberthir dros 80% o arwynebedd amaethyddol Cymru yn Ardaloedd llai Ffafriol (ALIFfau). Mae'r rhain yn arwynebeddau o fynydd-dir, gweundir, rhostir a thir uchel uwchlaw terfynau ffermdir amgaeedig. O fewn yr ALIFf, mae 84% o'r daliadau yn ddaliadau gwartheg a defaid. Yn y rhain, magu defaid yw'r prif weithgarwch; lleolir 92% o'r ddiadell fagu defaid o fewn yr Ardaloedd Llai Ffafriol (a 74.3% o'r ganran honno o fewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr (AAFau)). Yn gyffredinol, mae'r tir o fewn ALIFfau ac AAFau yn addas yn unig ar gyfer cynhyrchu da byw dwys. Mae pori gan ddefaid a gwartheg yn ffordd effeithiol ac effeithlon o gynhyrchu protein i fwydo pobl, o'r ardaloedd dan anfantais.

Amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth blynyddol cynnyrch cig coch Cymreig oddeutu £648 miliwn; mae pedwar ar bymtheg o laddai cig coch yn cyfrannu tua £460 miliwn y flwyddyn i economi Cymru, ac yn cynnal yn uniongyrchol weithlu amaethyddol o 58,300.

Mae 32% o'r gweithgynhyrchwyr bwyd yng Nghymru yn fusnesau cig coch. Oherwydd y gallu i olrhain cynnyrch cig coch, a thrwy hysbysebu'r Dynodiadau Daearyddol Gwarchodedig (PGI) 'Cig Oen Cymru' a 'Chig Eidion Cymru', gall cig coch gyfrannu i 'dwristiaeth bwyd' yng Nghymru, gan hyrwyddo'r profiad o fwyta bwyd o ansawdd uchel, sy'n wahanol, lleol a chynaliadwy ac yn gysylltiedig â man penodol.

Yr Allforion Bwyd a Diod Cymreig mwyaf llwyddiannus yn 2017 oedd "Cig a chynhyrchion cig", a oedd yn cynrychioli 27.8% o werth, ac 19.9% o faint holl Allforion Bwyd a Diod Cymru. Yn 2017, allforiwyd o'r Deyrnas Unedig tua 31,000 tunnell fetrig o gig defaid a14,500 tunnell fetrig o gig eidion (ffres/rhewedig) a oedd yn tarddu o Gymru; amcangyfrifwyd bod gwerth y rhain, ar y cyd â'r offal a allforiwyd, oddeutu £200 miliwn.

## Cyflawni

Yn y Cynllun Gweithredu Cig Coch, pennir nifer o flaenoriaethau ac amcanion strategol lefel uchel. Mae'r crynodeb isod yn amlygu'r gweithgarwch allweddol a ymgymerwyd gan wahanol randdeiliaid ledled y diwydiant yn ystod y cyfnod adrodd 2017/18, mewn cysylltiad â'r amcanion a'r camau gweithredu allweddol a bennir yn y cynllun gweithredu.

### Amcan Strategol 1: Cynyddu'r refeniw o werthiant cig coch Cymreig

Y gweithgarwch a dargedwyd ar gyfer:

**Amcan Strategol 1: Cynyddu'r refeniw o werthiant cig coch Cymreig**

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni (2017-2018) | Deilliant |
|---|---|---|
| Cynnal ymchwil marchnad i ganfod a phroffilio marchnadoedd gwerth uchel, er mwyn blaenoriaethu ymdrechion a theilwra gweithgareddau yn briodol | o Mae HCC wedi cynnal ymchwil marchnata a chyfathrebu i ganfod a deall patrymau masnachu a phatrymau pryniant defnyddwyr, a nodi posibiliadau marchnata newydd, gan gynnwys arolwg marchnad yng Ngwlad Belg a Lwcsembwrg i ddod o hyd i gwsmeriaid newydd posibl ar gyfer Cig Oen Cymru. | Twf yng nghyfran cig coch Cymreig o werth y farchnad |
| Adolygu a datblygu'r brandiau cig coch er mwyn creu a chynnal safle brand cystadleuol cryf a pherthnasol mewn marchnadoedd gwerth uchel [byd-eang] | ○ Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r brand Cymru / Wales ar stondinau ym mhob o'r digwyddiadau masnach allforio a drefnwyd, gan gynnwys:<br>• FHA, Singapore: 24-27 Ebrill 2018<br>• SIAL Canada, Montreal: 2-4 Mai 2018<br>○ Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn datblygu deunyddiau o'r math diweddaraf ar gyfer y farchnad allforion.<br>○ Mae aelodaeth y cynllun PGI Cig Oen Cymru a PGI Cig eidion Cymru wedi ei gynnal a'i ddatblygu gan HCC, gyda'r bwriad o ddiogelu parhad y statws Dynodiad Bwyd Gwarchodedig (neu gyfwerth) ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.<br>• Ar hyn o bryd mae 62 o sefydliadau (lladd-dai a chanolfannau torri) yn aelodau o'r cynllun gwirio PGI<br>• Mae HCC wedi cynnal ei aelodaeth o'r Cynllun Gweithgynhyrchwyr PGI, a datblygwyd tri o gynhyrchion newydd sy'n defnyddio Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni (2017-2018) | Deilliant |
|---|---|---|
| Agor marchnadoedd domestig a marchnadoedd allforion newydd a datblygu'r marchnadoedd presennol ar gyfer cig coch Cymreig | o Dyfarnu'r Rhaglen Datblygu Allforio Gwell, gwerth £1.5 miliwn i HCC.<br>o HCC yn cymryd rhan mewn cenadaethau masnach a chenadaethau canfod ffeithiau i Hofex, Hong Kong.<br>o HCC yn cymryd rhan mewn cenhadaeth fasnach i UDA.<br>o HCC yn cymryd rhan mewn cenhadaeth fasnach i Qatar.<br>o HCC yn bresennol mewn dwy Sioe Ewropeaidd allweddol (Tutto Food yn yr Eidal ac Anuga yn yr Almaen) ochr yn ochr ag allforwyr cig coch Cymreig, ac yn cynorthwyo presenoldeb mewnforwyr mewn marchnadoedd eraill a dargedir ledled y byd (Gulfood, UAE a Hofex, Hong Kong).<br>o Bu HCC yn gweithio gydag asiantwyr mewn marchnadoedd allweddol i ganfod a thargedu cwsmeriaid posibl i gig coch Cymreig ymhlith cyfanwerthwyr, arlwywyr a manwerthwyr.<br>o Bu HCC yn cynorthwyo 2 o allforwyr cig coch Cymreig a'u cwsmeriaid yn SIAL Canada, Toronto, i hyrwyddo Cig Oen Cymreig PGI Welsh Lamb a chanfod cwsmeriaid newydd yn y sectorau manwerthu ac arlwyo<br>o Aeth HCC i Tutto Food yn yr Eidal i gwrdd â chwsmeriaid newydd yn y sectorau manwerthu ac arlwyo.<br>o Bu HCC yn hwyluso 'Cenhadaeth o'r Tu Allan' yn y wasg i ddefnyddwyr yn yr Eidal, gan ymweld â fferm a threfnu arddangosfa gigydda i 5 o newyddiadurwyr.<br>o Bu HCC yn cefnogi digwyddiadau i lansio Cig Oen Cymru mewn dwy gadwyn siopau yn Ontario.<br>o Bu HCC yn cefnogi digwyddiad blasu mewn siop annibynnol, a digwyddiad 'bwrdd cogyddion' yn Vancouver.<br>o Bu Cyswllt Ffermio (CFf) yn cynorthwyo prosiect Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd ar y cyd â'r Grŵp Mynyddoedd Cambrian, i ddatblygu ac ehangu eu cadwyn gyflenwi fer ar gyfer cig eidion, gan edrych am hyfforddiant a chyngor i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r marchnadoedd a dargedir ganddynt.<br>o Mae rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio yn cynorthwyo unigolion uchelgeisiol i ddysgu am ffyrdd newydd a gwell o weithio yn y sectorau ffermio neu goedwigaeth. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth i unigolion ymweld â ffermydd eraill o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a/neu groesawu rheolwr fferm profiadol, a hyfforddwyd yn briodol i ymweld â'u daliad, gyda'r nod o rannu'r hyn ddysgir o'r profiad gyda'r diwydiant ehangach trwy gyfrwng Cyswllt Ffermio. | Twf yng nghyfran cig coch Cymreig o werth y farchnad |

| | | |
|---|---|---|
| Creu pwynt gwahaniaethu mesuradwy ar gyfer cig coch Cymreig, nad yw'n dibynnu ar wybodaeth am ei darddiad yn unig (gan ystyried yn benodol ansawdd y cynnyrch, a'i ansawdd fel bwyd). | Mae HCC yn nodi ac yn goleddfu nodweddion ychwanegol cig coch o Gymru, ar sail ffactorau megis ansawdd y profiad o'i fwyta a dilysrwydd ei gefndir amgylcheddol. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni (2017-2018) | Deilliant |
|---|---|---|
| Datblygu rhaglenni marchnata ar gyfer y fasnach, a fydd yn diogelu buddiannau cig coch Cymreig ac yn cynnal neu'n cynyddu'r gofod silff a ddyrennir i gig coch Cymreig gan fanwerthwyr a chyflenwyr gwasanaeth bwyd | o Bu HCC yn cyflawni gweithgareddau gyda chwsmeriaid manwerthu, cyfanwerthu a gwasanaeth bwyd i hyrwyddo cig coch Cymreig a chynnal lefel y rhestriadau cig coch Cymreig.<br>o Cynhaliwyd y ganran 9.6% o'r gofod gosodiadau manwerthu yn y Deyrnas Unedig yn 2017/18.<br>o Bu HCC yn helpu i gynyddu nifer y rhestriadau o gig coch Cymreig gan gyfanwerthwyr gwasanaeth bwyd mewn marchnadoedd allforio a flaenoriaethir, gan gynnwys Cig Oen Cymru a restrwyd yn rhestr premiwm cyflenwr Gwasanaeth Bwyd Almaenig, a 3 lein ychwanegol o doriadau Cig Oen Cymru gan gyflenwr gwasanaeth bwyd yn Hong Kong.<br>o Mae HCC wedi cyflenwi rhaglen recriwtio a chadw ar gyfer Porc.Wales. | Cynnydd yn y galw am gynhyrchion cig coch Cymreig, gan fasnach a chan ddefnyddwyr, yn y farchnad ddomestig yn ogystal â'r farchnad allforio |
| Datblygu mecanweithiau i gynyddu'r cyflenwad sydd ar gael o gig coch Cymreig sy'n dangos y brand er mwyn sicrhau premiwm manwerthu yn y sectorau manwerthu a gwasanaeth bwyd | o Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth i gynlluniau RDP 2014-2020 Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) i wella perfformiad a chystadleurwydd, ymateb i'r galw gan ddefnyddwyr, annog arallgyfeirio, a chanfod, gwasanaethau ac ymelwa ar farchnadoedd presennol a datblygol.<br>o Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyfanswm grantiau o £1,490,457 o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) i 4 busnes yn y sector cig coch, a chyfanswm grantiau o £22,148 o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (RBISF) i 2 fusnes yn y sector cig coch.<br>o Mae HCC wedi cyflenwi rhaglen recriwtio a chadw i Glwb Cigyddion Cig Oen Cymru, sydd ganddo bellach 217 o aelodau.<br>o Cyflenwodd HCC raglen gadw i Glwb Cig Oen Cymru - a gadwodd 53 o aelodau. | |
| Datblygu cynhyrchion cig coch newydd i ddiwallu'r galwadau cyfredol a datblygol yn y farchnad fyd-eang<br>: | ○ Mae CFf, trwy Agrisgôp, wedi darparu cymorth i grŵp o entrepreneuriaid ffermio ifanc a gyfunodd eu hadnoddau i agor bwyty byrgyrs newydd yn Aberystwyth, a fydd yn gwerthu byrgyrs cig eidion a chig oen a gyflenwir yn lleol.<br>○ Mae Grŵp Agrisgôp arall, o gynhyrchwyr cig eidion Shorthorn, yn ymchwilio i ffyrdd o wella'r elw a gânt o'u buchesi. Bydd aelodau o'r grŵp yn gweithio i ddyrchafu proffil gwartheg cig eidion Shorthorn, ac yn edrych ar wahanol lwybrau marchnata a allai gynyddu eu hincwm. Edrychir ar y posibilrwydd o ladd a chigydda stoc yn lleol, a gwerthu i gwsmeriaid sy'n chwilio am gynnyrch o safon uchel o ffynhonnell gynaliadwy, sydd ag ôl troed carbon bach ac sy'n gofalu am les anifeiliaid.<br>○ Bu HCC yn gweithio gyda'r Canolfannau Arloesi Bwyd a sefydliadau eraill i ganfod cyfleoedd a datblygu cynigion cydweithredol ar gyfer datblygu cynhyrchion cig oen newydd, gwella cydbwysedd carcasau, darparu cyfleoedd marchnata newydd ac ychwanegu gwerth i'r toriadau cost isel. Ceisir cyfleoedd hefyd i wella cyfansoddiad maethol cig a chynhyrchion cig; y bwriad yw hwyluso cynnal gweithdy ar ychwanegu | |

| | | |
|---|---|---|
| | at werth sgil-gynhyrchion anifeiliaid. | |
| **Camau Gweithredu Strategol** | **Cyflawni (2017-2018)** | **Outcome** |
| Sefydlu rhaglenni cynhyrchu yn lle mewnforio, i wneud cig coch Cymreig yn fwy deniadol i gadwyni cyflenwi yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys mecanweithiau i hybu cyfleoedd caffael cyhoeddus ) | o Parhaodd y cydweithio rhwng HCC, y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a dylanwadwyr allweddol o'r sector cyhoeddus i wneud cig coch Cymreig yn fwy deniadol i gadwyni cyflenwi yn y Deyrnas Unedig.<br>o Parhaodd HCC i gynorthwyo cwmnïau gwasanaeth bwyd sy'n canolbwyntio ar gyflenwi i brynwyr Awdurdodau Lleol a chyrff caffael cyhoeddus eraill, trwy waith cynorthwyol ar gyfrifon allweddol a dargedir. | Cynnydd yn y galw, gan fasnach a defnyddwyr, am gig coch Cymreig, yn y farchnad ddomestig a'r farchnad allforio |
| Datblygu perthnasau a fydd yn caniatáu gwell mynediad i farchnadoedd gwerth uchel, naill ai nad oes mynediad iddynt, neu y cyfyngir ar fynediad iddynt, ar hyn o bryd | o Mae rhaglen gyfnewid Cyswllt Ffermio yn cynnig cyfle i gynhyrchwyr cynradd ddatblygu perthnasau â marchnadoedd gwerth uchel posibl, ac ysgogi galw am y brandiau cig coch Cymreig.<br>o Yn 2017-2018 cwblhaodd 3 o gynhyrchwyr cig coch eu Cyfnewidfa Rheolaeth.<br>o Bu Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r ymgais i dreiddio i'r marchnadoedd MENA (Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica) o dan y Rhaglen Datblygu Allforio Gwell. Tri phrosesydd yng Nghymru, bellach, yw'r unig ffatrïoedd yn y Deyrnas Unedig a awdurdodwyd i allforio i Wledydd Cydweithrediad y Culfor (GCC):<br>o Cafwyd achrediad ar gyfer Cig Oen Cymru trwy gorff achredu Halal.<br>o Ailddechreuwyd Masnachu gydag UAE a chyflawnwyd y gofynion ar gyfer mynediad i Qatar, Kuwait a Brenhiniaeth Saudi-Arabia (KSA).<br>o Datblygir mynediad i KSA ymhellach trwy gysylltiadau mewnol yn y farchnad, Rhaglen Achredu Allforion y Deyrnas Unedig (UKECP) a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni (2017-2018) | Outcome |
|---|---|---|
| | o Mae HCC wedi parhau i chwarae rhan egnïol yng nghyfarfodydd UKECP a fforymau'r Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, \c wedi cyfarwyddo Export Certification Ltd. ynglŷn â'r marchnadoedd blaenoriaeth/targed ar gyfer CIG Oen Cymru a Chig Eidion Cymru. | |
| Nodi'r marchnadoedd a all gynnig y prisiau gorau am wahanol rannau o'r anifail, a gweithredu dull 'portffolio' | o Bu HCC yn cynnal ymchwil masnach a marchnata er mwyn canfod posibiliadau marchnata newydd – mae canfyddiadau'r ymchwil wedi eu trosglwyddo ymlaen i broseswyr perthnasol yn y diwydiant cig coch Cymreig.<br>o Mae HCC, ar y cyd â phroseswyr perthnasol, wedi cynnal gweithgareddau a deilwrwyd yn benodol i ddatblygu rhestrau o gynhyrchion sy'n addas ar gyfer gwahanol farchnadoedd | |
| Ymelwa ar gyfleoedd i wella oes silff cig coch Cymreig, i gynorthwyo'r diwydiant i wella'i gystadleurwydd a lleihau gwastraff | o Mae HCC wedi datblygu a chyflwyno cais am gyllid Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) ar gyfer cynnal ymchwil i 'Oes Silff' | |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu'r brandiau cig coch presennol ymhellach, i sicrhau eu bod yn berthnasol yn fyd-eang, ac yn apelio i ddefnyddwyr ac i'r fasnach cig coch ledled y byd | o Bu grŵp Busnes ac Arloesi Academi Amaeth Cyswllt Ffermio yn ymweld â'r Swistir ym mis Hydref 2017, gan ymweld â phrif fewnforiwr cig y wlad, sef GVFI. Dywedodd pob aelod o'r grŵp ei "hanes " fel ffermwr cig eidion/defaid gan bwysleisio gwerth cig oen a chig eidion Cymru fel cynnyrch premiwm.<br>o Roedd presenoldeb gan HCC yn sioe fasnach Gulfood 2018, i godi ymwybyddiaeth o gig oen Cymru PGI a chig eidion Cymru PGI; arweiniodd hynny at drafodaethau pellach gydag M&S yn y Dwyrain Canol.<br>o Parhaodd HCC i hyrwyddo cig coch Cymreig trwy farchnata manwerthol, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, deunyddiau man gwerthu, a chynnal a datblygu gwefannau defnyddwyr a masnachwyr.<br>o Cynhaliwyd lefelau gwerthiant ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o gig oen Cymru PGI a chig eidion Cymru PGI ym marchnadoedd domestig y Deyrnas Unedig.<br>o Cynhaliwyd neu cynyddwyd lefelau gwerthiant ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o gig oen Cymru PGI a chig eidion Cymru PGI ym marchnadoedd presennol yr UE:<br>- Yr Almaen: cynhaliwyd ar 4%<br>- Yr Eidal: cynyddwyd i 8%<br>- Sweden: cynyddwyd i 5%<br>- Denmarc: cynyddwyd i 3% | Cynyddu ymwybyddiaeth a gwella canfyddiad y defnyddwyr o gig coch Cymreig |
| Hysbysebu a hyrwyddo'r brandiau cig coch i ysgogi galw am frandiau cig coch Cymreig | o Parhaodd HCC i hyrwyddo cig coch Cymreig trwy farchnata manwerthol, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, deunyddiau man gwerthu, a chynnal a datblygu gwefannau defnyddwyr a masnachwyr. | |
| Addysgu /goleuo defnyddwyr ynghylch rhinweddau cig coch Cymreig, fel rhan o ddeiet cytbwys ac iach | o Y prif siaradwyr yn y Fforwm Merched Mewn Amaeth yng Nghymru oedd Dr Carrie Ruxton a'r Athro Robert Pickard, a fu'n rhannu tystiolaeth ynghylch rhinweddau cig coch mewn deiet cytbwys iach.<br>o Bu HCC yn rhwydweithio gyda dylanwadwyr allweddol yn y sectorau iechyd ac addysg, i ledaenu gwybodaeth ynghylch cig coch mewn deiet iach, ac yn cynnwys negeseuon ynghylch iechyd ac amlochredd mewn cyfathrebiadau at ddefnyddwyr.<br>o Roedd HCC yn bresennol yn 'Nursing In Practice' - daeth 200 o nyrsys at stondin HCC<br>o Bu HCC yn bresennol mewn cynhadledd Addysg<br>o Mae HCC wedi paratoi a phostio posteri addysg newydd i bob ysgol uwchradd yng Nghymru<br>o Mae HCC wedi cynnwys asedau a deunydd ynghylch Iechyd ac Addysg mewn cyfathrebiadau at ddefnyddwyr, gan gynnwys erthygl ar 'Protein Outdoor Fitness' | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni (2017-2018) | Deilliant |
|---|---|---|
| Addysgu /goleuo defnyddwyr ynghylch amlochredd, hwylustod a chost-effeithiolrwydd cig coch Cymreig | o Roedd ymgyrchoedd hyrwyddo HCC yn cynnwys negeseuon ynghylch amlochredd, hwylustod a chost-effeithiolrwydd cig coch Cymreig. | Cynyddu ymwybyddiaeth a gwella canfyddiad y defnyddwyr o gig coch Cymreig |
| Ystyried mecanweithiau i wella'r dull o labelu gwledydd tarddiad | o Mae gan Gymru bellach 15 o enwau bwyd gwarchodedig (PFNs) cofrestredig, 4 ohonynt o fewn y sector cig coch (sef CIG Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI, Ham Caerfyrddin PGI a Phorc o Wehelyth Cymreig wedi'i Fagu yn Draddodiadol TSE)<br>o Mae cais wedi ei gyflwyno am PFN ychwanegol ar gyfer Cig Oen Mynyddoedd | |
| Datblygu rhaglenni marchnata, a fydd yn ennyn diddordeb a galw gan segmentau defnyddwyr newydd | o Roedd gweithgarwch marchnata HCC yn canolbwyntio ar ddau brif grŵp. Un oedd cwsmeriaid presennol sydd dros 45 mlwydd oed, gyda'r nod o'u darbwyllo i brynu gwahanol doriadau a'u prynu'n amlach; yr ail oedd y grŵp o dan 45 mlwydd oed, a oedd yn llai tebygol o brynu a bwyta cig oen, ac y ceisid eu darbwyllo i ddewis cig oen yn lle math arall o brotein a ddefnyddient yn gyffredin. | Bwyta mwy o gig coch Cymreig |
| Datblygu dealltwriaeth o anghenion cymunedau penodol | o Parhaodd Llywodraeth Cymru, a'r Awdurdod Safonau Bwyd yng Nghymru, i gydweithio gyda chonsortiwm a arweinid gan y diwydiant i gyflwyno tystiolaeth bod dull hylan a diogel ar gael o ddarparu croen a gochwyd â mwg ar gig defaid, heb beryglu iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn codi'r posibilrwydd o gyfreithloni masnach sy'n anghyfreithlon ar hyn o bryd. Y nod yw bodloni'r galw am groen a gochwyd ar gig defaid, gan fod hynny'n apelio'n benodol i rai grwpiau ethnig yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt. | |

## Amcan Strategol 2: Cynyddu’r allbwn o’r ffermydd yn y sector cig coch yng Nghymru

Y gweithgarwch a dargedwyd ar gyfer:

Amcan Strategol 2: Cynyddu’r allbwn o’r ffermydd yn y sector cig coch yng Nghymru

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Cydgasglu a lledaenu gwybodaeth am farchnadoedd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac ym mhob rhan o’r byd, er mwyn darparu gwybodaeth i oleuo penderfyniadau’r diwydiant | o Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar system orfodol o ddosbarthu carcasau defaid, ac wedi diweddaru’r ddeddfwriaeth gyfredol ar ddosbarthu carcasau gwartheg cig eidion a moch, ac ar adrodd am brisiau, er mwyn gwella tryloywder.<br>o Bu HCC yn paratoi ac yn lledaenu adroddiadau ‘sganio’r gorwel’ a bwletinau marchnad cyfoes i’r diwydiant cig coch yng Nghymru, gan gynnwys y Llyfr Bach o Ffeithiau am GIG 2017.<br>o Mae gwefan gorfforaethol HCC yn cynnwys gwybodaeth dechnegol amserol a pherthnasol, gan gynnwys prisiau diweddaraf y farchnad | Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth y diwydiant o anghenion a thueddiadau’r farchnad |
| Darbwyllo/addysgu cynhyrchwyr, marchnadoedd da byw a phroseswyr i gynyddu i’r eithaf y defnydd a wnânt o garcasau, ac i gynnig cynnyrch sy’n diwallu anghenion penodol eu hallanfa yn y farchnad: | o Mae CFf wedi cyflwyno19 o brosiectau newydd ar y rhwydwaith arddangos, i roi gwybod i gynhyrchwyr sut i ddarparu cynnyrch sy’n diwallu gofynion y farchnad.<br>o Mae CFf wedi cynnal cyfanswm o ddigwyddiadau agored ar ffermydd a digwyddiadau camu ymlaen, sy’n gysylltiedig â chig coch a’r rhwydwaith arddangos.<br>o Cynhaliodd HCC 18 o gyrsiau hyfforddi ar Ddewis Ŵyn i’w Cigydda mewn lladd-dai, ar ffermydd ac mewn digwyddiadau; a sefydlodd system i fonitro effaith yr hyfforddiant ar gymhwysedd cynhyrchwyr, a gwelliannau yn y modd y dewisir ŵyn ar yr hyfforddiant.<br><br>o Bu HCC yn lledaenu deunyddiau ar ddewis da byw – roedd adroddiadau i’r wasg yn ystod y flwyddyn yn tanlinellu’r pwysigrwydd o ddeall sut i ddiwallu gofynion y farchnad.<br>o Cyflwynwyd deiliad Ysgoloriaeth HCC yn achlysur Next Generation y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA), yn y Ffair Aeaf, ac yng Nghynhadledd HCC ar ddefnyddio’r carcas wrth ddiwallu gofynion manwl y farchnad. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
| --- | --- | --- |
| Datblygu rhaglenni newydd sy’n canolbwyntio ar fusnes, er mwyn gwella rheolaeth, effeithlonrwydd phroffidioldeb busnesau cig coch Cymreig | o Mae grwpiau trafod CFf yn diweddaru eu data yn rheolaidd ar 'Mesur i Reoli'<br>o Mae CFf wedi sefydlu 19 o Brosiectau Rhwydwaith Arddangoso 19 newydd<br>o Cynhaliwyd 135 o Ddigwyddiadau Rhwydwaith Arddangos CFf mewn cysylltiad â chig coch. Roedd y pynciau yn cynnwys: Effeithlonrwydd bwydydd ar gyfer cynhyrchu ŵyn yn gynaliadwy; pesgi gwartheg cig eidion ar laswellt; ychwanegu gwerth ar Ucheldiroedd Cymru; bwyd, ffibr a’r amgylchedd.<br>o Cynhaliodd CFf 23 o gymorthfeydd adolygu busnes<br>o Cynhaliodd CFf 4 o gymorthfeydd rheolaeth ariannol<br>o Cynhaliodd CFf 23 o gymorthfeydd Marchnata ac Arallgyfeirio<br>o O’r Sector Cig Coch, roedd 783 wedi cwblhau hyfforddiant CFf yn ystod y cyfnod; Y canlynol oedd rhai o’r cyrsiau mwyaf poblogaidd: Cynllunio a Datblygu Busnes; Cofnodion ariannol a TAW; a Marchnata Eich Busnes.<br>o Gwnaed ceisiadau i Wasanaeth Cynghori CFf am gymorth Cynllunio Busnes i 210 o Fusnesau cig coch. Roedd hyn yn cynnwys cyngor un i un i 153, a 23 o unigolion mewn 11 o gwmnïau cyd-fentro.<br>o Bu HCC yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau datblygu diwydiant, ac yn lledaenu gwybodaeth i’r diwydiant yn barhaus ar bynciau megis: cyngor a gwybodaeth dechnegol ar reoli glaswelltir; iechyd a lles anifeiliaid; cynhyrchu da byw at ofynion y farchnad; gwelliannau genetig; effeithlonrwydd ar y fferm; ac ymchwil a datblygu. | Gwella sgiliau rheoli busnes a gwytnwch y diwydiant |
| Sefydlu mecanweithiau i hwyluso ac annog y defnydd eang o welliannau genetig er mwyn gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ystod amrywiol o systemau cynhyrchu, a sicrhau y gall cynhyrchion cig coch fodloni a chynnal gofynion y farchnad: | o Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau agored a digwyddiadau camu ymlaen ar rwydwaith arddangos CFf, i wella dealltwriaeth ffermwyr ynghylch gwelliannau genetig<br>o Bu grwpiau trafod CFf yn ystyried y defnydd o welliannau genetig i wella cynhyrchiant; er enghraifft, y rhan y gall geneteg ei chwarae mewn cynhyrchu cig eidion a magu buches sugno<br>o Roedd 55 o fusnesau cig coch wedi gwneud cais trwy Wasanaeth Cynghori CFf am gyngor technegol ar Reolaeth a Pherfformiad Da Byw. Roedd hyn yn cynnwys cyngor un i un i 12 a 43 o unigolion mewn 12 o grwpiau<br>o Bu HCC yn lledaenu gwybodaeth am werthuso genetig i gynhyrchwyr Cymreig mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth a chymorth arloesi - digwyddiadau/cyfarfodydd i’r diwydiant, astudiaethau achos, parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cofnodi perfformiad gan Egenes a Signet, datganiadau i’r wasg ac erthyglau a chyfweliadau yn y wasg. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Sefydlu mecanweithiau a fydd yn cynyddu i'r eithaf yr allbynnau o systemau sy'n seiliedig ar laswellt a lleihau'r ddibyniaeth ar fwydydd a brynir i mewn (a fewnforir) | o Cynhaliwyd 60 o ddigwyddiadau Rhwydwaith Arddangos CFf ar bynciau megis: o'r cae i'r bwyd - cael silwair 2017 yn iawn; prosiect porthiant a phori; rheoli porfa yn yr hydref; ac opsiynau ail-hadu.<br>o Cynhaliwyd 18 o glinigau CFf ar y pynciau canlynol: clinig priddoedd; pori mewn cylchdro; a pharthau perygl nitradau (NVZ).<br>o Naw o erthyglau technegol CFf ar bynciau gan gynnwys effaith newid yn yr hinsawdd ar amaethu sy'n seiliedig ar laswellt; a gwella rheolaeth pridd.<br>o Bu CFf yn cynorthwyo prosiect Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd ar systemau porthant amgen ar gyfer tir ymylol.<br>o Gwnaed ceisiadau i Wasanaeth Cynghori CFf gan 757 o fusnesau cig coch am gymorth technegol ar Reolaeth Glaswelltir a Chnydau. Roedd hyn yn cynnwys cyngor un i un i 45, a 712 o unigolion mewn 177 o grwpiau.<br>o Bu HCC yn trafod yr agweddau allweddol ar wella glaswelltir ar ffermydd defaid a chig eidion, mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth a chymorth arloesi.<br>o Bu HCC yn cyfrannu mewnbwn i weithgorau ar y Canllaw Rheoli Maethynnau RB20 ac ar reolaeth plaladdwyr a glaswelltir; yn paratoi adroddiadau i'r wasg ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwefan HCC i ledaenu negeseuon; yn datblygu astudiaethau achos a chyhoeddiadau (gan gynnwys y rhestr o laswelltau a meillion a gymeradwyir, *Recommended Grass and Clover List*); ac yn darparu cymorth technegol i weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth perthnasol CFf. | Gwella sgiliau rheoli busnes a gwytnwch y diwydiant |
| Sefydlu mecanweithiau i annog personél newydd i weithio yn y diwydiant (gan gynnwys ymunwyr ifainc) | ○ Mae CFf wedi dyfeisio nifer o fecanweithiau cyflenwi i annog personél newydd i weithio yn y diwydiant : Mentro, Cynllun Mentora, Cyfnewidfa Rheolaeth Ffermydd a Choedwigaeth, y Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes, Agrisgôp, Gwasanaeth Cynghori. Ar hyn o bryd, cynigir 16 o gyfleoedd trwy raglen Mentro CFf ar gyfer cynhyrchu cig coch.<br>○ Gwnaed ceisiadau i Wasanaeth Cynghori CFf gan 23 o fusnesau cig coch am gymorth Cynllunio Busnes i sefydlu cwmnïau cyd-fentro newydd, a fydd yn cynnwys ceiswyr a darparwyr mewn cytundeb ffermio ar y cyd. Roedd hyn yn cynnwys 23 o unigolion mewn 11 o gyd-fentrau. Hyd yma, mae 8 o gyd-fentrau cig coch newydd wedi eu sefydlu trwy raglen Mentro CFf.<br>○ Mae Cymorthfeydd Olyniaeth CFf wedi eu cynnal.<br>○ Bu HCC yn ymgysylltu â Chlybiau Ffermwyr Ifanc a Cholegau/Prifysgolion Cymru i hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau ac offer newydd i ddiwallu gofynion y farchnad, lleihau costau a chynnal mentrau cig coch proffidiol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau 'ar ffermydd' i'r myfyrwyr yng ngholeg Pencoed ac yn IBERS; a 10 o ddigwyddiadau dewis ŵyn a gynhaliwyd yn benodol ar gyfer myfyrwyr/Ffermwyr Ifanc.<br>○ Bu HCC codi ymwybyddiaeth o ofynion y farchnad ymhlith ffermwyr blaengar y dyfodol | |

| | | |
|---|---|---|
| | trwy ymgysylltu ag ymgyrchoedd a sefydliadau fel 'Next Generation' y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, 'Future Voice of Farming' UAC ac Academi Amaeth CFf. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Ymgymryd â datblygu sgiliau sy'n seiliedig ar y sector a hyfforddiant i ddatblygu gweithlu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar fusnes | o Trwy CFf crëwyd cyfanswm o 772 o Gynlluniau Datblygu Personol yn ystod y cyfnod (01.04.17 - 31.03.18)<br>o Cwblhaodd CFf 487 o gyrsiau e-ddysgu yn ystod yr un cyfnod; rhai o'r cyrsiau perthnasol i'r sector cig coch oedd: Bioddiogelwch, Cynllunio Busnes, Ŵyna, Ymwrthiant Gwrthlyngyrol ar Ffermydd Defaid, y Clafr, Ffrwythlondeb Buchesi Cig Eidion, Gastroenteritis Parasitig a Llyngyr yr Ysgyfaint mewn Gwartheg, a Rheoli Llyngyr yr Afu ar Ffermydd<br>o Cwblhaodd CFf 35 o Gymorthfeydd Cynllun Datblygu Personol a 10 o Gymorthfeydd TG<br>o Bu CFf yn cynorthwyo prosiectau ar ffermydd ar y rhwydwaith arddangos, a fu'n edrych ar: gydamseru gwartheg sugno er mwyn cynyddu cynhyrchiant; profi am ddolur rhydd firysol; cynllunio ar gyfer iechyd anifeiliaid; defnyddio technoleg i wella ffrwythlondeb; maint gwartheg a chynhyrchiant; opsiynau rheoli glaswelltir i wella cynhyrchiant. | anifeiliaid Gwella sgiliau rheoli busnes a gwytnwch y diwydiant |
| Buddsoddi yn y diwydiant cig coch, gan gynnwys cymorth i gyfleusterau lladd-dai a phrosesu, i ddiogelu'r capasiti sydd yng Nghymru | Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £1.1m ar gael i ladd-dai bach a chanolig, er mwyn cefnogi seilwaith a chyfleusterau sydd er lles anifeiliaid. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Datblygu ac annog cynllunio iechyd diadelloedd a buchesi, atal clefydau ac arferion cwarantîn effeithiol er mwyn gwella bioddiogelwch a lleihau effaith clefydau | ○ Mae mwy na 50% o'r gweithgareddau a ymgymerir gan CFf yn ymwneud ag Iechyd a Lles Anifeiliaid, gan gynnwys: gwaith prosiect, grwpiau trafod, digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol, cymorthfeydd, clinigau, rhaglen fentora, Agrisgôp, e-ddysgu<br>○ Mae holl safleoedd arddangos CFf wedi cynnal astudiaethau llinell sylfaen sy'n cynnwys cynllunio iechyd anifeiliaid.<br>○ Mae'r Ganolfan gyfnewid Gwybodaeth wedi ysgrifennu 10 o erthyglau technegol sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles Anifeiliaid, ac yn cynnwys rhai o'r pynciau canlynol – gwella'r gyfran o ŵyn sy'n goroesi; ectoparasitau defaid; y clafr; anghenion maethol mamogiaid beichiog. Yn ogystal, paratowyd 45 o ddatganiadau i'r wasg a oedd hefyd yn ymdrin ag Iechyd a Lles Anifeiliaid, megis: deall sut i reoli mastitis yn eich buches; rheoli parasitau; llyngyr yr afu; lansio'r rhaglen dolur rhydd firysol.<br>○ Bu CFf yn cynorthwyo Prosiect Arloesi Ewropeaidd ar leihau'r defnydd o wrthfiotigau ar ffermydd defaid yn y tymor ŵyna, trwy wella hylendid a maethiad; mae'n edrych bellach ar sut y gall camau rheoli wella iechyd y ddiadell yn gyffredinol, a lleihau'r angen am ymyriadau gwrthfiotig.<br>○ Gwnaed ceisiadau i Wasanaeth Cynghori CFf gan 55 o fusnesau cig coch am gymorth technegol ar Berfformiad Da Byw. Roedd hyn yn cynnwys cyngor un i un i 12, a 43 o unigolion mewn 12 o grwpiau.<br>○ Roedd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru wedi comisiynu gweithgor gorchwyl a gorffen i ystyried Cynllunio Iechyd Anifeiliaid (AHP). Cyflwynodd y gweithgor AHP ei adroddiad grŵp Fframwaith i'w gymeradwyo. Ar ôl ei gymeradwyo gan y grŵp, defnyddiwyd yr adroddiad yn ddiweddar i ategu ceisiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau o dan Fenter Strategol Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) Cymru. Bydd yn darparu arweiniad ar ddulliau a safonau i gyflenwyr Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru.<br>○ Lledaenwyd gwybodaeth am les anifeiliaid gan HCC i gynhyrchwyr yng Nghymru yn ystod gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth a chymorth arloesi - bu HCC yn darparu mewnbwn i Bwyllgor Lles Anifeiliaid UAC ac i gyfarfodydd/grwpiau a fu'n ymdrin ag iechyd anifeiliaid (sef SCOPS/COWS); anfonodd adroddiadau i'r wasg ar wybodaeth a gasglwyd gan COWS a SCOPS; roedd HCC yn bresennol yng Nghynhadledd RUMA; bu'n cyflwyno mewnbwn i'r Grŵp Gwrthfiotigion Defaid; yn hwyluso gwaith y Gweithgor Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi; yn cydweithio gydag CFf i sicrhau cysondeb yn y negeseuon a gyflëir i gynhyrchwyr; yn cysylltu â chyrff perthnasol yn y diwydiant ynghylch safonau iechyd a lles, adnabod anifeiliaid a symudiadau anifeiliaid; ac yn cyfleu negeseuon allweddol mewn cyfarfodydd gyda chynhyrchwyr, mewn llyfrynnau, ar y wefan ac mewn astudiaethau achos. | Gwella iechyd a lles anifeiliaid ac atal clefydau |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Ceisio lleihau effaith twbercwlosis (TB) trwy gefnogi'r Rhaglen i Ddileu TB | o Bu CFf yn cefnogi: digwyddiad safle arddangos; Cynllun Dileu BVD Cymru; y cynllun achredu TB; cyfarfod o grŵp Agrisgôp; cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd Dileu TB Gogledd Cymru; Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol; darparu diweddariadau ynghylch y Cynllun Dileu BVD. | Gwella iechyd a lles anifeiliaid ac atal clefydau |
| Gwella'r safonau iechyd a lles anifeiliaid ar hyd y gadwyn gyflenwi, yn unol â Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru | o 59 o Grwpiau Trafod Cig Coch CFf. Mae pob un o'r grwpiau'n meincnodi, gan gynnwys meincnodi'r elfennau o'u busnes sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid.<br>o Mae 13 o brosiectau ar draws rhwydwaith arddangos CFf yn cysylltu ag iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys y prosiectau: Rheoli llyngyr yr afu a mapio ffermydd; maethiad effeithlon gwartheg hysb a defnydd tir; diogelu dyfodol uned cig eidion - cofleidio technoleg i ymdopi â dyfodol ansicr; a lleihau'r defnydd o wrthfiotigion yn ystod ŵyna, a mynd i'r afael â chlwy'r cymalau. | |
| Ystyried datblygu a chyflwyno rhaglenni dileu a fydd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau clefydol (gan gynnwys BVD, clefyd Johne a'r clafr) | o Mae 13 o brosiectau ar draws rhwydwaith arddangos CFf yn cysylltu ag Iechyd a Lles Anifeiliaid.<br>o Mae mynd i'r afael â BVD yn flaenoriaeth i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Bu'r Grŵp yn cefnogi datblygiad y cynllun dileu "Gwaredu BVD" a arweinid gan y diwydiant; er Medi 2017, bu'n profi dros 5,865 o ffermydd yng Nghymru, pan gafwyd bod 27% o'r buchesi a sgriniwyd yn profi'n bositif ar gyfer gwrthgyrff. Mae 164 o helfeydd Heintiau Cyndyn (PI) nil ai wedi eu cwblhau neu ar droed, a 7 o labordai wrthi'n dadansoddi samplau. | |
| Gwella dealltwriaeth y diwydiant o fanteision economaidd gwella iechyd anifeiliaid, a gwella effeithlonrwydd trwy hwsmonaeth effeithiol | o Bu Iechyd a Lles Anifeiliaid yn brif ffocws i nifer o grwpiau trafod cig coch CFf, gan gynnwys y grŵp Defaid Aberystwyth, a sefydlwyd mewn cysylltiad â Milfeddygon Ystwyth. Bu'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith yn ystod y cyfnod, gan edrych y benodol ar a) Diagnosis a thriniaeth ar gyfer Cloffni; b) Hylendid yn ystod ŵyna a chlwy'r cymalau a chlefydau eraill mewn ŵyn newydd-anedig; ac c) baich llyngyr a sut i'w reoli. Roedd y cyfarfodydd hyn yn seiliedig ar feincnodi, ac o ganlyniad maent wedi gwella dealltwriaeth y diwydiant o fanteision economaidd gwella iechyd anifeiliaid. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Adolygu'r diwydiant da byw a chynlluniau wrth gefn y llywodraeth, gan ystyried eu parodrwydd ar gyfer gweithredu a'r cyfnodau ymateb ac adfer, er mwyn lleihau effaith lledaeniad annisgwyl unrhyw glefyd estron mewn anifeiliaid | o Bu Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) yn arwain ymarfer argyfwng clefydol yng Nghymru, trwy gydweithio gydag APHA a rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr y Sector Cig Coch, i ystyried beth fyddai effaith clefyd anifeiliaid, a'n cynlluniau wrth gefn ni, ar y diwydiant, a phrofi ein gallu i ymdopi â digwyddiad o'r fath. Gwneir hyn yn unol â gofyniad yr Undeb Ewropeaidd, sef bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ddwywaith o fewn cyfnod o 5 mlynedd, yn profi parodrwydd ei chynlluniau wrth gefn i ymdopi â chlefyd anifeiliaid. Yn ychwanegol, bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu Strategaeth Reoli Clefyd y Croen Talpiog. | Gwella iechyd a lles anifeiliaid ac atal clefydau |
| Ystyried sut y gallai mecanweithiau newydd wella'r systemau graddio carcasau, a hwyluso datblygu systemau talu a fyddai'n seiliedig ar faint y cig a geid o'r carcas | o Mae HCC wedi parhau i hyrwyddo datblygiad dulliau newydd o werthuso carcasau, ac o wobrwyo cynhyrchwyr ar sail ansawdd a chysondeb.<br>o Mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 (a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2018) yn galluogi'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ystyried a chymeradwyo dulliau amgen, pe deuent ar gael, o hollti carcasau i dynnu allan fadruddyn y cefn yn ddiogel o garcasau defaid a geifr sy'n hŷn na 12 mis. Mae posibilrwydd y bydd hyn yn lleihau effaith yr hollti o ostwng gwerth y carcas.<br>o Yn ystod cyfnod yr adroddiad cynhaliodd HCC 18 o gyrsiau hyfforddi 'Byw i Farw', gydag 8 o ffermwyr, ar gyfartaledd, yn bresennol ym mhob un. | Gwella tryloywder a chysondeb y modd y cyflenwir y cynnyrch, a gwella'r dolenni cyswllt yn y gadwyn gyflenwi |
| Datblygu mecanweithiau i gyflenwi adborth a gwybodaeth i gynhyrchwyr am bwysau ac ansawdd carcasau | o Bu'r grŵp Agrisgôp CFf 'Boneddigesau sy'n ŵyna' yn cymryd rhan mewn cwrs hyfforddi 'byw i farw'.<br>o Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar orfodi adrodd am garcasau defaid | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Annog cydweithio o fewn y gadwyn gyflenwi, er mwyn gwella cyfathrebu o fewn y diwydiant: | ○ Grŵp Trafod CFf sy'n cydweithio'n glòs gyda Dunbia yw Grŵp Ŵyn Ymddiriedolaeth y Tywysog. Mae'n cyfarfod 4 neu 6 gwaith y flwyddyn i gymharu dangosyddion perfformiad allweddol a chasglu gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi gan dîm amaethyddol Dunbia. Yn yr un modd, mae grŵp pesgi gwartheg De Sir Benfro yn cynnwys cyflenwyr cig eidion Dunbia.<br>○ Mae'n hanfodol bwydo gwartheg yn gywir i ddiwallu'r gofyn yn y farchnad am garcasau ysgafnach - neges a gyflëwyd i ffermwyr mewn digwyddiad CFf, ac a ledaenwyd mewn datganid i'r wasg ar ôl y digwyddiad.<br>○ Bu HCC yn cynnal cyfres o weithgareddau datblygu diwydiant, ac yn lledaenu gwybodaeth i'r diwydiant yn gyson, gan gynnwys cymorth a chyngor technegol ar reolaeth glaswelltir; iechyd a lles anifeiliaid; cynhyrchu da byw i ddiwallu gofynion cyfredol y farchnad; gwelliannau genetig; effeithlonrwydd ar y fferm; ac ymchwil a datblygu.<br>○ Bu HCC yn ymgysylltu â nifer o unigolion a sefydliadau o'r gadwyn gyflenwi yn ystod y flwyddyn. Rhan o hynny oedd prosiect a fu'n ystyried sut y gall proseswyr unigol wella effeithlonrwydd a gostwng costau trwy gydweithio. Rhannwyd canfyddiadau'r gwaith hwnnw gyda'r diwydiant ehangach. | Gwella tryloywder a chysondeb y modd y cyflenwir y cynnyrch, a gwella'r dolenni cyswllt yn y gadwyn gyflenwi |
| Dyfeisio dulliau newydd o wella cysylltiadau yn y gadwyn gyflenwi, fel y gellir teilwra'r cyflenwi i ddiwallu'r galw | o Mae Grŵp Gweithredol Cig Eidion Mynyddoedd Cambrian CFf yn ymchwilio i ffyrdd o wella ei gadwyn gyflenwi fer, i sicrhau y gall ddiwallu gofynion ei gwsmeriaid. Gwneir hynny trwy gynnal cyfres o weithdai hyfforddi wedi eu teilwra'n benodol i ymdrin â thoriadau cig amgen, marchnata a systemau cynhyrchu sy'n sicrhau y gellir bodloni'r galw. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Ystyried mecanweithiau i atal y gostyngiad yn niferoedd da byw (yn enwedig y cyflenwad o gig eidion), gan gynnwys cyfleoedd i ddiogelu'r sylfaen gynhyrchu ar dir uchel | o Mae prosiectau Rhwydwaith Arddangos CFf yn cynnwys ffocws ar dechnegau rheoli glaswellt amgen, a fydd yn gwella cynhyrchiant a defnydd tir a cyn cynyddu'r allbwn o wartheg a defaid.<br>o Mae'r 59 grŵp trafod cig coch CFf yn cynnwys grwpiau penodol ar gyfer gwartheg cig eidion, ar gyfer defaid ac ar gyfer cymysgedd o ddefaid a gwartheg cig eidion.<br>o Bu grŵp o ffermwyr o Harlech ar Ymweliad Astudio mewn arwerthiant gwartheg Luing yn Castle Doiuglas, i gasglu rhagor o wybodaeth am allu'r fuwch i fagu a goroesi ar ucheldiroedd Cymru. | Gwella tryloywder a chysondeb y modd y cyflenwir y cynnyrch, a gwella'r dolenni cyswllt yn y gadwyn gyflenwi |
| Goleuo/addysgu'r diwydiant ynglŷn ag arbed costau, cadwraeth, effeithlonrwydd ynni a dŵr, a ffyrdd o leihau gwastraff ac o wella gwybodaeth, diffuantrwydd a thryloywder<br><br>Mabwysiadu ffyrdd o ymateb i bolisïau a rheoliadau amgylcheddol gan gynnwys ymchwilio i ddulliau amgen o waredu stoc marw ar y fferm, ac annog defnyddio'r dulliau hynny | o Mae 18 o brosiectau ar ffermydd CFf yn cysylltu â rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol.<br>o Mae CFf wedi cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth Strategol ar y testun "Ffermio ar gyfer y Dyfodol".<br>o Mae clinigau CFf wedi eu cynnal ar briddoedd; caeau problematig; pori mewn cylchdro; a betys porthiant.<br>o Mae pob un o safleoedd arddangos CFf wedi cwblhau astudiaethau llinell sylfaen, a adolygir yn flynyddol ac sy'n cynnwys archwiliadau ynni.<br>o Mae HCC wedi datblygu a chyflenwi gwybodaeth dechnegol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth proseswyr o'r marchnadoedd, a'r cyfleodd i leihau costau trwy gynyddu'r defnydd o garcasau a lleihau gwastraff.<br>o Bu HCC yn cydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth University ar weithdy ar gyfer proseswyr, a oedd yn canolbwyntio ar gynyddu effeithlonrwydd trwy ychwanegu at werth sgil-gynhyrchion anifeiliaid. | Cynyddu'r defnydd o dechnegau sy'n cefnogi'r targedau newid hinsawdd, ac yn lleihau allyriadau o'r nwyon tŷ gwydr a methan |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Rhoi gwybod i gynhyrchwyr am ddylanwad effeithlonrwydd cynhyrchu ar y targedau newid hinsawdd, yn ogystal â gwella hirhoedledd yr anifeiliaid magu a gwella'u cyfradd trosi bwyd | o Bu CFf yn cynorthwyo ffermwr da byw a fabwysiadodd system bori mewn cylchdro i besgi ŵyn; y canlyniad oedd pesgi 8% yn rhagor o ŵyn i safon y farchnad, a chael 1.5kg pwysau byw ychwanegol am bob oen.<br>o Mae CFf wedi sefydlu prosiect Safle Ffocws er mwyn gwerthuso manteision ac anfanteision pori mewn cylchdro, gyda'r bwriad o rannu'r canfyddiadau â ffermwyr eraill.<br>o Yn yr adran Cyfnewid Gwybodaeth ar wefan Cyswllt Ffermio Cyhoeddwyd 23 o erthyglau a oedd yn ategu'r targedau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr a methan.<br>o Bu HCC yn cynrychioli diwydiant cig coch Cymreig ym mhob un o'r grwpiau newid hinsawdd diwydiannol allweddol a'r gweithgorau C2025, trwy gydol y flwyddyn.<br>o Roedd negeseuon allweddol i ddiwydiant ynghylch y newid yn yr hinsawdd wedi eu cynnwys fel rhan annatod o weithgareddau 'datblygu diwydiant' HCC ynglŷn â rheoli glaswelltir, iechyd a lles anifeiliaid, gofynion y farchnad, gwelliannau genetig, effeithlonrwydd ar y fferm ac ymchwil a datblygu.<br>o Bu CFf yn cynorthwyo rhaglen, a gyllidwyd gan Defra, ar effeithlonrwydd bwyd gwartheg cig eidion, a oedd yn ceisio dangos hefyd fel y gall dewis da byw yn ofalus achosi enillion effeithlonrwydd i'r fferm. | Cynyddu'r defnydd o dechnegau sy'n cefnogi'r targedau newid hinsawdd, ac yn lleihau allyriadau o'r nwyon tŷ gwydr a methan |
| Datblygu egwyddorion Trywydd Cig Coch Cymreig ymhellach, ar hyd y gadwyn gyflenwi cig coch | o Mae 605 o weithgareddau CFf wedi ategu'r neges yn Nhrywydd Cig Coch Cymreig ynghylch lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr. | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
| --- | --- | --- |
| Cefnogi rhaglenni ymchwil a gweithgareddau datblygu perthnasol, i wella effeithlonrwydd y cynhyrchu a'r prosesu, a darparu ffyrdd o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ac ymdopi ag amodau tywydd eithafol: | o Bu rhwydwaith arddangos CFf yn parhau i gofleidio ac arddangos y dechnoleg newydd, gan gynnwys 'dethol genomig' a thechnoleg i wella cynhyrchiant, gwella glaswelltir a'r modd y'i defnyddir, a threialu rhywogaethau glaswellt newydd.<br>o Bu HCC yn cynnal portffolio ymchwil a datblygu sy'n berthnasol i anghenion Cymru, ac yn cadw mewn cysylltiad â datblygiadau technolegol cyfoes.<br>o Bu HCC mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid perthnasol er mwyn cynnal perthnasau â darparwyr technoleg a darparwyr masnachol; mewn cynadleddau/cyfarfodydd technegol i gadw mewn cysylltiad â datblygiadau newydd; bu'n cyfrannu hefyd i gyfarfodydd ymchwil a datblygu'r tri chorff ardoll; a bu'n cydgysylltu cyfarfodydd chwarterol pwyllgor ymchwil a datblygu HCC.<br>o Bu HCC yn lledaenu canfyddiadau'r ymchwil a datblygu i'r diwydiant yng Nghymru, mewn datganiadau i'r wasg, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mewn digwyddiadau 'Ar Ffermydd' yng Ngholeg Pencoed ac IBERS. | Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd |
| Sefydlu rhaglenni 'profi cysyniad' priodol, sy'n hyrwyddo cynhyrchu ac yn creu pwynt gwahaniaethu mesuradwy o blaid cynhyrchion cig coch Cymreig, o ran cysondeb y cynnyrch, ei ansawdd wrth ei fwyta, y safonau ansawdd a'i oes silff. | o Bu HCC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y diwydiant i ddatblygu'r gwerthoedd cynaliadwyedd a fydd yn sylfaen i Brand Cymru (gan gynnwys Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI) | |

| Camau Gweithredu Strategol | Cyflawni | Deilliant |
|---|---|---|
| Cyflenwi gweithgareddau 'trosglwyddo technoleg' newydd, sy'n cynnig atebion ymarferol a fydd yn annog y diwydiant i fabwysiadu'r dechnoleg newydd | o Mae Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth CFf yn pontio'r bwlch rhwng yr ymchwil diweddaraf a'r arferion ffermio cyfoes. Rhennir gwybodaeth o'r Ganolfan gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau, er enghraifft trwy'r datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir i gynghorwyr a rhwydwaith staff CFf, adroddiadau yn y wasg, taflenni ffeithiau, prosiectau safle arddangos, ac ati.<br>o Mae'r prosiectau yn Rhwydwaith Arddangos CFf yn darparu cyfleoedd i arddangos y dechnoleg ddiweddaraf ar ffermydd ledled Cymru.<br>o Dyfarnwyd dwy ysgoloriaeth gan HCC, y naill ar gyfer systemau graddio cig eidion a'r llall ar gyfer Technobori<br>o Cynhaliwyd digwyddiad yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru i ddathlu 20fed pen-blwydd ysgoloriaeth HCC.<br>o Parhaodd HCC i gefnogi portffolio eang o brosiectau ymchwil a datblygu, a oedd yn cynnwys ymchwilio i ffyrdd newydd o ganfod achosion o afiechyd mewn anifeiliaid, megis y profion 'penside' am lyngyr yr afu mewn mamogiaid. | Cynyddu'r defnydd o dechnegau sy'n cefnogi'r targedau newid hinsawdd, ac yn lleihau allyriadau o'r nwyon tŷ gwydr a methan |
| Cyflenwi gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth a fydd yn hyrwyddo arloesi ac yn anogaeth i fabwysiadu'r arfer gorau | o Cylch gwaith Labordy Amaeth CFf yw arddangos y dechnoleg ddiweddaraf i fusnesau ffermio yng Nghymru. | |

## 3. Cyflawniadau Allweddol

### Amcan 1

Er pan gyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Strategol yn 2015, bu cynnydd cyson (sef 6 y cant) yng ngwerthiant cig coch Cymreig; cyfrannodd allforion yn sylweddol i'r cynnydd cyffredinol yn y gwerthiant, ond arhosodd gwerthiannau manwerthol a gwasanaethau bwyd yn y Deyrnas Unedig yn gymharol sefydlog yn ystod yr un cyfnod.

Roedd amodau'r farchnad yn 2017 yn llawer gwell nag yn y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig ar gyfer cig oen. Un o'r prif resymau am hyn oedd yr hwb a roddwyd i brisiau allforio gan wendid Sterling gyferbyn â'r Ewro a'r Ddoler, oherwydd yr ansicrwydd a grëwyd gan ganlyniadau refferendwm yr UE ym Mehefin 2016. Fel yn achos cig oen, roedd pris cig eidion yn uwch na lefelau'r flwyddyn flaenorol am y rhan fwyaf o'r cyfnod, a'r farchnad yn cael ei chynnal gan y galw cyson a di-dor am y cynnyrch.

O fewn Prydain Fawr, cynyddu a wnaeth prisiau manwerthu cig oen a chig eidion, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Canlyniad hyn oedd gostyngiad amlwg yn y cymeriant o gig oen, er bod y cymeriant o gig eidion wedi aros yn gymharol sefydlog; dengys hyn fel y mae defnyddwyr Prydeinig yn synio am gig eidion fel cynnyrch mwy fforddiadwy ac addasadwy.

| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | **Cyflawniad erbyn:** | | | | **Ffynhonnell y Data** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2015** | **2016** | **2017** | **Newid (2015-2017)** | |
| Cynyddu gwerth manwerthu cig coch Cymreig yn y DU erbyn 2020 | £323 miliwn | £327 miliwn | £321 miliwn | - 1% | HCC |
| Cynyddu gwerth gwerthiant gwasanaethau bwyd yn y DU erbyn 2020 | £34 miliwn | £35 miliwn | £35 miliwn | + 3% | HCC |
| Cynyddu gwerth allforion cig coch Cymreig erbyn 2020 | £157 miliwn | £161 miliwn | £189 miliwn | + 20% | HCC |
| **Cyfanswm Gwerth:** | **£514 miliwn** | **£524 miliwn** | **£545 miliwn** | **+ 6%** | |

*(Mae'n bosibl na fydd y ffigurau yn adio yn gywir oherwydd talgrynnu)*

### Amcan 2

Mae gallu'r diwydiant cig coch i wneud cynnydd sylweddol ym mhob maes gweithgarwch yn ystod y cyfnod a adolygir yn adlewyrchu nifer o ffactorau economaidd ac amgylcheddol y dylid eu hystyried


Roedd effaith y tywydd ar y diwydiant yn 2017/18 wedi amrywio'n fawr. Roedd ŵyna a bwrw lloi yn y gwanwyn wedi eu hwyluso gan dywydd cynhesach na'r cyfartaledd; ond ar ôl cyfnod sych yn gynnar yn yr haf, troes y tywydd yn wlyb erbyn dechrau Awst. Parhaodd y patrwm hwnnw am weddill 2017 ac i mewn i 2018. Amharodd hyn ar allu'r ffermwyr i besgi'r ŵyn yn effeithiol (a gwartheg tewion hefyd, i raddau llai). Yn ystod y flwyddyn, digwyddodd rhai newidiadau strwythurol, a newidiadau yn y dull o gaffael, ymhlith proseswyr cig yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, bu gostyngiad yn y cosbau a osodid am gyflenwi ŵyn a oedd wedi eu gorbesgi ychydig bach. Mae'n debyg mai effaith hynny oedd peri i gynhyrchwyr ddal eu gafael yn eu hŵyn am gyfnod hwy, a lleihau'r ganran o'r ŵyn a oedd yn bodloni gofynion safonol y farchnad fel y'u datgenir yn yr adroddiad hwn; er bod yr ŵyn yn bodloni gofynion eu proseswyr.

| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | **Cyflawniad erbyn** | | | | **Ffynhonnell y Data** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2015** | **2016** | **2017** | **Newid (2015-2017)** | |
| 1. Cynyddu'r gyfran o'r ŵyn sy'n bodloni gofynion safonol y farchnad erbyn 2020 | 58.4% | 57.1% | 56.5% | - 3% | Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) |
| 2. Cynyddu'r gyfran o'r gwartheg tewion sy'n bodloni gofynion safonol y farchnad erbyn 2020 | 54.9% | 56.1% | 56.3% | + 3% | Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) |
| 3. Lleihau'r gyfran o'r ŵyn a roddir ar y farchnad yn y categorïau oen ysgafn a gorysgafn erbyn 2020 | 14.9% | 15.5% | 14.8% | - 1% | Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) |
| 4. Lleihau'r cyfnod cyfartalog bwrw llo erbyn 2020 | 428 diwrnod | 428 diwrnod | 426 diwrnod | - 0.5% | Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) |
| 5. Cynnal y nifer o foch magu yng Nghymru erbyn 2020 | 4,000 pen | 3,800 pen | 3,500 pen | - 13% | Llywodraeth Cymru |
| 6. Cynnal y nifer o foch pesgi yng Nghymru erbyn 2020 | 21,300 pen | 19,400 pen | 21,000 pen | - 1% | Llywodraeth Cymru |
| 7. Cynyddu nifer cyfartalog yr ŵyn a fegir am bob mamog erbyn 2020 | 1.36 y pen | 1.34 y pen | 1.36 y pen | 0% | Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) |
| 8. Cynyddu pwysau cyfartalog yr ŵyn a gynhyrchir am bob mamog erbyn 2020 | 55kg | 54kg | 54kg | - 2% | Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) |
| 9. Cynyddu pwysau cyfartalog o gig eidion a ddiddyfnwyd a gynhyrchir am bob buwch erbyn 2020 | 276kg | 286kg | 281kg | + 2% | Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) |


## Perfformiad gyferbyn â Thargedau

*Mae data 2013 data wedi eu cynnwys ym mhob un o'r graffiau fel ffigur sylfaenol, ac nid er mwyn eu cymharu mewn cysylltiad â'r perfformiad ehangach


### KPI 1 Cynnydd yn y gyfran o'r ŵyn sy'n bodloni gofynion safonol y farchnad




### KPI 2 - Cynnydd yn y gyfran o'r gwartheg tewion sy'n bodloni gofynion safonol y farchnad





### KPI 3 – Gostyngiad yn nifer yr ŵyn a roddir ar y farchnad yn y categorïau gorysgafn ac ysgafn





**KPI 4 – Cynnydd ym mherfformiad y fuches genedlaethol, yn nhermau lleihad yn y cyfnod bwrw llo cyfartalog**


Nifer o ddiwrnodau:



**KPI 5 – Cynnal y nifer o foch magu yng Nghymru erbyn 2020 (pennau)**





**KPI 6 - Cynnal y nifer o foch pesgi yng Nghymru erbyn 2020 (pennau)**




**KPI 7 - 7. Cynyddu nifer cyfartalog yr ŵyn a fegir am bob mamog erbyn 2020**

Nifer o Ŵyn:





**KPI 8 – Cynyddu pwysau cyfartalog yr ŵyn a gynhyrchir am bob mamog erbyn 2020**

Pwysau Cyfartalog (kg):



**KPI 9 - Cynyddu'r pwysau cyfartalog o gig eidion a ddiddyfnwyd a gynhyrchir am bob buwch erbyn 2020**

Pwysau cyfartalog (kg):




Blwyddyn

## 4. Ffocws ar y Dyfodol

Mae’r diwydiant cig coch wedi wynebu nifer o heriau sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Roedd yr amodau llym ar ddiwedd gaeaf hir a chaled wedi arwain at gynnydd naturiol yn nifer yr anifeiliaid a gollwyd yn ystod y flwyddyn. Effeithiodd hynny drymaf ar famogiaid ac ŵyn y tymor newydd. Ar ben hynny, roedd ansicrwydd yn parhau ynghylch goblygiadau Brexit ac unrhyw gytundeb ynghylch masnach, gyda ffermwyr a chynhyrchwyr fel ei gilydd yn gwneud newidiadau disyfyd i’w busnesau a’u systemau cynhyrchu i geisio gwneud darpariaeth wrth gefn.

I’r dyfodol, dylid parhau i ganolbwyntio ar agweddau penodol o’r cynllun gweithredu lle na chanfuwyd fawr ddim gwelliant; fodd bynnag, rhaid cydnabod bod amgylchiadau anghyffredin y 12 mis diwethaf wedi cael effaith anghymesur ar y sector cig coch.

Er gwaethaf y newid anochel sydd o’n blaen, mae’n eglur y dylem barhau i gyflenwi gyferbyn â’r holl dargedau; ond byd rhaid canolbwyntio mwy ar weithgarwch a all ddylanwadu ar y meysydd canlynol:

- *Cynyddu gwerth manwerthol y cig coch Cymreig a werthir yn y Deyrnas Unedig*
- *Cynyddu’r gyfran o’r ŵyn sy’n bodloni gofynion safonol y farchnad.*
- *Cynyddu’r nifer cyfartalog o ŵyn a fegir am bob mamog*
- *Cynnal y nifer o foch magu sydd yng Nghymru*
- *Cynnal y nifer o foch pesgi sydd yng Nghymru*

Wrth inni symud yn nes at adael yr Undeb Ewropeaidd, dylai’r sector ystyried y manteision a ddaw o gynnal sector cig coch hyfyw yng Nghymru ar ôl Brexit, sef diwydiant cystadleuol a chynhyrchiol, gyda’r gallu i ffynnu er gwaethaf yr hinsawdd wleidyddol ac economaidd; a sicrhau y cynhelir busnesau yn effeithlon ar sail cynlluniau strategol cadarn. Y rhain yw’r ystyriaethau a fydd yn arwain at welliannau yn ein targedau strategol.

## 5. Diweddglo

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yr adroddwyd arni, gwelwyd buddsoddi sylweddol mewn gweithgareddau a oedd yn amcanu i wella'r perfformiad ledled y diwydiant cig coch. Roedd nifer o'r gweithgareddau yn canolbwyntio yn benodol ar y camau strategol a bennir yn y cynllun gweithredu, ac wedi cyfrannu i'r gwelliannau perfformiad a gofnodwyd.

Digwyddodd gwelliant yn y perfformiad gyferbyn â mwyafrif o'r amcanion strategol, ond mae cryn waith i'w wneud eto er mwyn cyrraedd yr holl dargedau erbyn 2020.

Mae "Gweledigaeth 2025" HCC wedi estyn y ffocws strategol ar gyfer y diwydiant cig coch i gynnwys ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n cydnabod y bydd angen adolygu blaenoriaethau'r diwydiant cig coch yng ngoleuni effeithiau posibl Brexit; ac mae'n rhoi sylw i'r cyfleoedd strategol, yr heriau a'r risgiau yn nhermau masnachu, cynhyrchu a phrosesu.

Beth bynnag a fydd yn deillio o Brexit yn y diwedd, bydd y weledigaeth derfynol ar gyfer y diwydiant yn aros – diwydiant cig coch Cymreig a fydd o fudd i bobl Cymru, yn ymdopi â newid gwleidyddol ac amgylcheddol, a chanddo'r gallu i ymateb yn gystadleuol i dueddiadau bythol gyfnewidiol y farchnad.